Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sicrhau asesiadau athrawon – rhaglen wirio allanol

Adroddiad ar y rhaglen – Blwyddyn 2

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 193/2017
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

# Sicrhau asesiadau athrawon – rhaglen wirio allanol

## Adroddiad ar y rhaglen – Blwyddyn 2

**Cynulleidfa**

Penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd a phenaethiaid adrannau mewn ysgolion a gynhelir; cydlynwyr asesu ysgolion uwchradd ac athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, cyrff llywodraethu ysgolion prif ffrwd; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn adroddiad ar ganlyniadau 2015/2016 y rhaglen wirio allanol, a gynlluniwyd i wella cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon drwy adborth o ansawdd uchel i'r holl randdeiliaid allweddol.

**Camau i'w cymryd**

Mae athrawon, penaethiaid a phob rhanddeiliad allweddol yn cael eu hannog i ymgyfarwyddo â chanfyddiadau ac argymhellion ail flwyddyn y rhaglen wirio allanol.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i:

Y Gangen Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3222
e-bost: Assessment@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

*Sicrhau asesiadau athrawon – rhaglen wirio allanol* (Llywodraeth Cymru, 2016); *Rhaglen wirio allanol genedlaethol: Cwestiynau cyffredin* (Llywodraeth Cymru, 2016); *Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder* (Llywodraeth Cymru, 2015)

© Hawlfraint y Goron 2017
WG30768 ISBN digidol 978 1 4734 8469 6

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Y rhaglen** 3

- **Blwyddyn 1 – crynodeb o'r ymweliadau** 4
- **Blwyddyn 1 – camau gweithredu** 4
- **Blwyddyn 1 – crynodeb o'r canfyddiadau** 4
- **Rhaglen – Blwyddyn 2** 5
- **Blwyddyn 2 – crynodeb o'r ymweliadau** 5
- **Blwyddyn 2 – prif ganfyddiadau cychwynnol** 6

**Argymhellion** 8

**Atodiad: Camau gweithredu ac argymhellion o Flwyddyn 1** 10

## Cyflwyniad

Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i gryfhau trefniadau asesiad athrawon (*Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder*) o Rhagfyr 2014 i Mawrth 2015. Roedd y cynigion yn cynnwys cryfhau cymedroli clwstwr a chyflwyno rhaglen wirio allanol.

Deilliant allweddol o'r ymgynghoriad oedd cyhoeddi rhaglen genedlaethol, yn dechrau yn ystof haf 2015, i gynnig gwirio allanol mewn mathemateg a gwyddoniaeth ym Mlwyddyn 1, â'r canolbwynt yn symud ym Mlwyddyn 2 i Cymraeg ail iaith/Saesneg mewn Ysgolion cyfrwng Saesneg; a'r Gymraeg/Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Gwobrwywyd y contract o reoli'r broses wirio i bartneriaeth rhwng y pedwar consortiwm rhanbarthol a CDSM Interactive Solutions. Bu'r 'Bartneriaeth' yn rheoli a gweithredu'r rhaglen ar y cyd, mewn cydweithrediad ag arweinwyr ysgol ac arbenigwyr pwnc. Sefydlwyd y Bartneriaeth â chymorth ADEW, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru.

Canolbwynt y rhaglen yw gwella cywirdeb a chysondeb asesu athrawon drwy adborth o ansawdd uchel i athrawon, penaethiaid a phob rhanddeiliaid allweddol.

## Y rhaglen

Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen ymgymerwyd â nifer o dasgau allweddol, a oedd i:

- ddatblygu prosesau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer y broses wirio, gan gynnwys templedi cyffredin i'w defnyddio gan bob gwiriwr a gwiriwr arweiniol
- darparu rhaglen hyfforddi genedlaethol, safonol ar gyfer pob gwiriwr arweiniol a gwiriwr
- datblygu a gweithredu methodoleg samplo ar gyfer ysgolion, er mwyn ymweld â 10 y cant o ysgolion Cymru
- darparu gwybodaeth allweddol i ysgolion detholedig am y broses a'r ymweliad â'r ysgol
- datblygu proses cenedlaethol i ddatrys unrhyw anghytuno o ran penderfyniadau rhwng y gwiriwr a'r ysgol
- darparu pob deunydd ac adnodd yn ddwyieithog.

Yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ymgymerwyd â nifer o dasgau allweddol, a oedd i:

- adolygu'r prosesau, gweithdrefnau a dogfennau, gan gymryd i ystyriaeth gwersi Blwyddyn 1 y rhaglen. Cwblhawyd y gwaith hwn gan ymgynghori â gwirwyr arweiniol ac arweinwyr pwnc perthnasol mewn gweithdai a gynhaliwyd yn Chwefror 2016
- trefnu hyfforddiant i wirwyr ar gyfer Mawrth 2016, ei ymestyn i dau ddiwrnod mewn un lleoliad. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael eu trafod mewn manylder digonol a bod gwirwyr yn derbyn hyfforddiant cyn unrhyw gyfarfodydd cymedroli clwstwr ym mis Ebrill
- datblygu rhaglen o ymweliadau clwstwr (20 y cant o gyfarfodydd clwstwr cenedlaethol)
- datblygu rhaglen o ymweliadau ysgol ar gyfer Cymraeg, Saesneg, a Chymraeg ail iaith (10 y cant o ysgolion yn genedlaethol)
- adolygu methodoleg samplo ysgolion yng ngolau argymhellion blwyddyn gyntaf y rhaglen
- penodi gwerthuswr allanol annibynnol ar gyfer dwy flwyddyn olaf y rhaglen
- gweithio â CDSM i ddatblygu'r system ar-lein ymhellach er mwyn galluogi gwirwyr i gael mynediad at ddeunyddiau hyfforddiant a thempledi newydd, ac i hwyluso rhannu adroddiadau drafft â gwirwyr arweiniol at bwrpas sicrhau ansawdd.

Penodwyd gwiriwr arweiniol gan bob consortiwm i fod yn gyfrifol am dîm o gymedrolwyr ac i arolygu'r broses wirio mewn ardal consortiwm gwahanol.

- Gwiriwr arweiniol CCD, o'r GCA.
- Gwiriwr arweiniol y GCA, o CCD.
- Gwiriwr arweiniol ERW, o GwE.
- Gwiriwr arweiniol GwE, o ERW.

Roedd mwyafrif y gwirwyr yn benaethiaid neu arweinwyr pwnc cyfredol o ysgolion. Penodwyd gwirwyr o staff y consortia dim ond pan nad oedd staff ysgol ar gael. Er

mwyn cryfhau dilysrwydd y rhaglen, cwblhawyd cyfran o ymweliadau'r gwirwyr mewn ardal consortiwm gwahanol i'r brif ardal y cawsant eu penodi iddo.

## Blwyddyn 1 – crynodeb o'r ymweliadau

Anfonwyd cyfanswm o 55 o wirwyr i 149 o ysgolion. O'r rhain roedd:

- 71 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Saesneg
- 35 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Cymraeg
- 28 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Saesneg
- 15 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Cymraeg.

Mewn ysgolion cynradd, canolbwyntiwyd y gwirio ar fathemateg a gwyddoniaeth ill dau. Dewiswyd naill ai mathemateg (22) neu wyddoniaeth (21) yn yr ysgolion uwchradd.

Fel rhan o'r rhaglen gofynnwyd i wirwyr edrych ar broffiliau dysgwyr a gyflwynwyd mewn digwyddiadau cymedroli clwstwr a gwaith tri o ddysgwyr a ddewiswyd ar hap.

## Blwyddyn 1 – camau gweithredu

Dysgwyd gwersi pwysig o'r Flwyddyn gyntaf a defnyddiwyd y rhain i ddatblygu'r rhaglen wirio ar gyfer Blwyddyn 2 (2015–16).

Yn yr adroddiad cychwynnol (Gorffennaf 2015) nodwyd tasgau yr oedd angen eu cwblhau gan y consortia yn ystod tymor yr hydref 2015, er mwyn eu galluogi i gefnogi eu hysgolion a'u clystyrau yn gyson o ran cryfhau a datblygu trefniadau asesu athrawon. Canlyniad y gwaith oedd cyhoeddi'r dogfennau canllaw canlynol:

- Arweiniad byr i asesu yn yr ysgolion.
- *Cymedroli asesiad athro – Arweiniad i ysgolion a chlystyrau 2015/2016*.
- *Cymedroli asesiad athro – Arweiniad penodol pynciol i ysgolion a chlystyrau 2015/2016*.

## Blwyddyn 1 – crynodeb o'r canfyddiadau

Mewn nifer o achosion roedd gwirwyr yn cytuno â dyfarniadau ysgolion. Fodd bynnag, bu amrywiaeth rhwng cyfnodau allweddol a phynciau. Cafwyd hefyd bod ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi asesiad athrawon yn amrywio. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gwaith dysgwyr yn cynrychioli ystod lawn y cwricwlwm ac roedd digon o fanyldeb i'r asesiad i gefnogi'r lefel a bennwyd. Fodd bynnag, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ill dau nid oedd digon o dystiolaeth mewn gwaith rhai dysgwyr i alluogi i'r gwiriwr gytuno ar y lefel.

## Rhaglen – Blwyddyn 2

Fel rhan o'r contract cynlluniwyd nifer o newidiadau i'r rhaglen ar gyfer Blwyddyn 2. Roedd y rhain yn cynnwys:

- newid i ganolbwyntio ar y pynciau canlynol: Cymraeg, Saesneg a Chymraeg ail iaith
- cynnydd ym maint y sampl i 15 y cant o ysgolion ym mhob cyfnod allweddol
- ymweld â chyfran fach (10 y cant) o gyfarfodydd cymedroli clwstwr.

Yng ngolau'r gwersi a ddysgwyd wrth ddarparu'r rhaglen ym Mlwyddyn 1, gwnaeth Bwrdd y Bartneriaeth yr argymhelliad canlynol i Fwrdd Contract Llywodraeth Cymru:

- cynnydd yng nghyfran yr ymweliadau clwstwr i 20 y cant, gyda lleihad ym maint sampl yr ymweliad ysgol i 10 y cant o ganlyniad, i gadw'r nifer yr un fath ag yn y flwyddyn gyntaf.

Cytunwyd ar hyn a gweithredwyd yr argymhelliad.

## Blwyddyn 2 – crynodeb o'r ymweliadau

Anfonwyd cyfanswm o 59 o wirwyr at 154 o ysgolion a 43 clwstwr. O'r ysgolion, roedd:

- 88 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Saesneg
- 42 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Cymraeg
- 16 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Saesneg
- 8 yn osodiadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Cymraeg.

O'r clystyrau, roedd:

- 16 yn gyfrwng Saesneg – Saesneg
- 14 yn gyfrwng Saesneg – Cymraeg ail iaith
- 7 yn gyfrwng Cymraeg – Cymraeg
- 6 yn gyfrwng Cymraeg – Saesneg.

Ym mhob ysgol canolbwyntiwyd y gwirio ar un pwnc, a ddewiswyd ar hap ar gyfer yr ysgol unigol, ond wedi'i gydbwyso yn unol â chyfran y gosodiadau yng Nghymru. Fel rhan o raglen yr ymweliadau ysgol, bu rhaid i wirwyr edrych ar ddau broffil dysgwr a gyflwynwyd mewn digwyddiadau cymedroli clwstwr a gwaith tri o ddysgwyr a ddewiswyd ar hap.

## Blwyddyn 2 – prif ganfyddiadau cychwynnol

### Cymedroli clwstwr

- Roedd gwelliant amlwg o ran trefniadaeth y cyfarfodydd clwstwr. Cadeiriwyd bron pob cyfarfod gan bennaeth neu athro/athrawes profiadol ac fe'u rheolwyd yn effeithiol, ar ddyddiadau a gytunwyd ymhell o flaen llaw. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd digon o amser wedi'i benodi i alluogi cymedroli pob proffil ar gyfer pob ysgol yn y clwstwr.
- Mynychwyd y mwyafrif o gyfarfodydd clwstwr yr ymwelwyd â nhw gan gynrychiolydd o'r awdurdod lleol a/neu'r consortiwm. Ym mwyafrif yr achosion, roedd hyn er mwyn bodloni cyfrifoldeb statudol yr awdurdod lleol mewn perthynas ag asesu. Mewn nifer bach iawn o achosion, bu dryswch ynghylch ai monitro neu gynghori oedd eu swyddogaeth.
- Rhoddwyd ystod ehangach o dystiolaeth i wneud penderfyniadau gan gyngor y consortia i ddefnyddio llyfr cyfan dysgwr unigol, yn hytrach na samplau unigol o'u gwaith. Fodd bynnag, roedd anghysondebau'n parhau o ran defnydd y dull newydd hwn.
- Mewn lleiafrif o achosion, roedd amrywiaeth yn nefnydd sylwadau athrawon, o fewn a rhwng consortia. Canlyniad hyn mewn rhai achosion oedd nad oedd digon o wybodaeth gael i gefnogi dyfarniad ffit-orau. Nid oedd sylwadau athrawon bob amser yn rhoi cyd-destun i'r gweithgaredd neu dangos yn llawn sut oedd y dysgwr yn arddangos nodweddion y lefel a ddyfarnwyd. Roedd tystiolaeth, fodd bynnag, o ragor o herio rhwng cydweithwyr cynradd ac uwchradd, yn enwedig mewn perthynas â gwaith ar Lefel 5.
- Roedd nifer o glystyrau'n defnyddio ystod o strategaethau i gynnig mynediad ar-lein i dystiolaeth gywedol a fideo, er mwyn cefnogi dyfarniadau o ran llythrennedd a darllen. Roedd y systemau hyn yn gwella'r ystod o wybodaeth oedd ar gael. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn cyfarfodydd clwstwr yn ddigonol o ran ystod ac ansawdd i gefnogi dyfarniadau manwl gywir o ran llythrennedd, a darllen i raddau llai.
- Uwchlwythodd rhai clystyrau proffiliau dysgwyr cyflawn i wefan diogel cyn y cyfarfod. Er bod hyn yn caniatáu mynediad yn fyw at dystiolaeth, codwyd pryderon gan rai athrawon ynghylch yr effaith ar lwyth gwaith athrawon.
- Mynegodd ychydig iawn o benaethiaid fod angen safbwynt annibynnol pan fo anghytundeb.
- Darparwyd adroddiad adborth ysgrifenedig gan bron bob clwstwr. Roedd mwyafrif yr adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion ar gyfer y clwstwr cyfan, fodd bynnag lleiafrif oedd yn cynnig adborth manwl i ysgolion unigol.
- Er ei fod yn ofyniad statudol i ysgolion weithredu casgliadau a phenderfyniadau'r cyfarfod(ydd) clwstwr, mewn nifer fach iawn o achosion lle'r oedd anghytuno, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i gadarnhau bod cydymffurfio wedi digwydd.

### Gwirio ysgolion

Mae cyfoeth ac ansawdd tystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi asesiad athrawon wedi gwella ers blwyddyn gyntaf y rhaglen. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn parhau rhwng ysgolion unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd yr ystod o dystiolaeth a

gyflwynwyd i gefnogi lefel wedi'i gefnogi gan sylwadau athrawon, a oedd yn ddigon manwl i gefnogi'r dyfarniad yn llawn.

Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ill dau, roedd digon o dystiolaeth ym mron pob proffil a wiriwyd i'r gwiriwr fedru cadarnhau dyfarniad  yr ysgol. Roedd ychydig iawn o achosion o anghytuno rhwng y gwiriwr a'r ysgol.

Nodwch nad yw'n bosib gwneud cymhariaeth uniongyrchol â data o raglen 2015 oherwydd y newid o ran y pynciau a wiriwyd.

- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 – Saesneg, cytunwyd lefelau mwyafrif y dysgwyr yn Lefelau 4 a 5.
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 – Cymraeg, cytunwyd ar lefelau mwyafrif y dysgwyr ar Lefel 4 ac fe gytunwyd ar nifer ar Lefel 5.
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 – Cymraeg ail iaith, cytunwyd ar lefel nifer o lefelau ar Lefel 4 a'r mwyafrif ar Lefel 5.
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 – Saesneg, cytunwyd ar lefelau mwyafrif y dysgwyr ar Lefelau 5 a 6.
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 – Cymraeg, cytunwyd ar lefelau pob disgybl ar Lefelau 5 a 6.
- Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 – Cymraeg ail iaith, cytunwyd ar lefelau mwyafrif y dysgwyr ar Lefel 5 a nifer ar Lefel 6.

Er cadarnhaodd gwirwyr fod yna ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'r lefel a wobrwywyd yn y mwyafrif o achosion, mewn ychydig o ysgolion roedd ystod ac ansawdd y dystiolaeth yn annigonol i gefnogi'r dyfarniadau ar gyfer llythrennedd, ac i raddau llai darllen. Ym mron i bob un ysgol a wiriwyd, defnyddiwyd egwyddorion cyd-fynd orau yn effeithiol.

Pan oedd anghytuno ar ddyfarniadau roedd hyn oherwydd bod dyfarniadau'r gwiriwr naill ai 1 lefel yn uwch neu 1 lefel yn is na lefel yr ysgol (L+1 / L-1) neu ble'r oedd y dystiolaeth yn annigonol (TA) i alluogi dyfarniad clir.

Ar gyfer ysgolion cynradd y rhesymau dros anghytuno oedd: Tystiolaeth annigonol (8.1%), anghytuno ar Lefel+1 (1.0%) a Lefel-1 (1.8%).

Ar gyfer ysgolion uwchradd y rhesymau dros anghytuno oedd: Tystiolaeth annigonol(7.8%), anghytuno ar Lefel+1 (0%) a Lefel-1 (1.8%).

## Argymhellion

Os gwella cysondeb, dibynadwyedd a dilysrwydd asesiad athrawon yw bwriad y rhaglen STAP, yna rhaid iddo newid o'r manyleb wreiddiol o Blwyddyn 3 ymlaen. Unig effaith ymweliadau pellach â'r ysgolion a'r clystyrau yn fydd cynhyrchu'r un deilliannau â Blynyddoedd 1 a 2 y rhaglen. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol weithio gyda'i gilydd i gefnogi a datblygu asesiad athrawon.

Mae'n dal i fod yn bosib i gyflwyno system wirio cenedlaethol ond rhaid iddo fod yn rhan o raglen newid ehangach, dan gydweithio'n agos gyda'r rhaglenni Dyfodol Llwyddiannus ac ysgolion arloesi. Mae ystod o gamau gweithredu y bydd angen cydweithio arnynt. I ddechrau, rhaid i asesiad athrawon fod yn rhan o gylch gorchwyl pawb.

- Rhaid gwella statws asesiad athrawon.
- Rhaid wrth le blaenllaw ar asesiad athrawon fel rhan o hyfforddiant ac addysg gychwynnol i athrawon, yn ogystal â sefydlu athrawon newydd gymhwyso.
- Rhaid wrth le blaenllaw ar asesiad athrawon o fewn fframwaith Estyn.
- Mae angen sicrhau bod egwyddorion a phwrpas asesiad wedi'u deall yn iawn gan bob athro/athrawes.
- Rhaid datblygu sgiliau athrawon ymhellach, drwy raglen hyfforddiant cenedlaethol gorfodol.
- Rhaid adolygu deddfwriaeth i sicrhau ei bod yn tanlinellu a chefnogi holl ddatblygiad y cwricwlwm, cyn belled a'u bod yn berthnasol i asesiad athrawon.

**Rhaid i'r consortia sicrhau bod:**

- deunyddiau canllaw a rhaglenni hyfforddiant ar gael i holl aelodau'r proffesiwn, gan gynnwys athrawon cyflenwi a chymorthyddion dosbarth
  cydweithio'n digwydd rhwng consortia i greu system cymedroli cenedlaethol drwy: cymedroli effeithiol o fewn ysgolion, o fewn clystyrau, ar draws clystyrau, yn rhanbarthol, ac yn y bôn dros Gymru gyfan
- prosesau'n dilyn amserlen cenedlaethol y cytunir arni
- eglurdeb i'r gwaith y dylid mynd ag ef i gyfarfod clwstwr gan athrawon
- pawb yn deall eu swyddogaeth o fewn y broses, ynghyd â swyddogaeth yr awdurdodau lleol
- asesiad yn ganolog i bob dim y maent yn ei wneud, fel bod yna negeseuon clir a chyson i'r proffesiwn ynglŷn â sut i sicrhau asesiad athrawon sy'n effeithiol ac yn fanwl gywir.

**Rhaid i ysgolion:**

- sicrhau arweinyddiaeth effeithiol o ran asesu
- sicrhau bod ‘iaith asesu gyffredin’ wedi'i ddeall a'i ddefnyddio gan bawb

- deall egwyddorion a phwrpas asesiad, a sut yw'n berthnasol i'w cyd-destun a'u hanghenion eu hunain
- rhoi dysgwyr ar ganol y broses
- meddu ar ddealltwriaeth gytûn o'r angen am asesiad, y wybodaeth sydd ei angen, a sut dylid defnyddio gwybodaeth am asesu, o fewn a rhwng ysgolion
- bod â systemau mewnol effeithiol i safoni a chymedroli gwaith dysgwyr
- darparu gwybodaeth ystyrlon i rieni am gynnydd eu plentyn.

**Rhaid i Lywodraeth Cymru:**

- wneud y newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth a pholisi i sicrhau bod yna strwythur atebolrwydd clir a bod deddfwriaeth yn tanlinellu a chefnogi datblygiadau a gynllunnir
- gwneud cyfrifoldebau statudol pob budd-ddeiliad allweddol yn glir
- sicrhau bod unrhyw waith ar asesiad yn ganolog i gynllun Dyfodol Llwyddiannus a gwaith ysgolion arloesi.

# Atodiad: Camau gweithredu ac argymhellion o Flwyddyn 1

Rhoddwyd nifer o gamau gweithredu ac argymhellion gan adroddiad y rhaglen i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Blwyddyn 1. Mae'r tablau isod yn darparu crynodeb lefel uchel o statws bob cam gweithredu.

## Y rhaglen

| Cam gweithredu | Statws |
|---|---|
| • Adolygu rhaglen hyfforddiant gwirwyr i ddiffinio ei hystod a'i chynnwys yn fwy clir. | Wedi'i gwblhau |
| • Datblygu'r system ar-lein i sicrhau ei fod yn cefnogi gweinyddiaeth y rhaglen, yn trefnu llif gwaith gwirwyr yn effeithiol, a bod iddo offer adrodd data cadarn. | Wedi'i gwblhau, ond rhaid gwerthuso'r effaith ymhellach |
| • Cryfhau'r prosesau sicrhau ansawdd ar bob lefel y rhaglen, i gynyddu hyder yng nghywirdeb pob dyfarniad a wneir. | Wedi'i gwblhau, ond bydd y deilliannau'n cael eu hadrodd yn ôl arnynt gan werthuso allanol |
| • Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i raenuso methodoleg samplo ysgolion ymhellach, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael eu targedu'n well. | Wedi'i gwblhau |

## Consortia rhanbarthol

| | |
|---|---|
| • Defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i hysbysu'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol a gynigir i'w hysgolion, er mwyn cefnogi asesiad athrawon o fewn eu rhanbarth. | Wedi'i gwblhau (ar gyfer 2015–16) ond yn mynd rhagddo |
| • Defnyddio dogfennaeth y rhaglen wrth recriwtio gwirwyr, er mwyn cyfathrebu'r swyddogaeth, cyfrifoldebau, ymrwymiad amser a threfniadau ariannol yn glir. | Wedi'i gwblhau |

## Llywodraeth Cymru

Dylid parhau i godi proffil asesiad drwy ystyriaeth, fel bod:

| | |
|---|---|
| • pob budd-ddeiliad allweddol yn rhoi blaenoriaeth i asesiad | Parhaus |
| • hyn yn ganolog i hyfforddiant a datblygiad y sawl sy'n dechrau yn y proffesiwn. | Parhaus |